OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 1719 (Cy. 233)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Man i'r Gorllewin o Dwnnel Penmaen-bach i Gyffordd 15a, Red Gables, Penmaen-mawr, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

Gwnaed	*21 Medi 2015*
Yn dod i rym	*28 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Medi 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Man i'r Gorllewin o Dwnnel Penmaen-bach i Gyffordd 15a, Red Gables, Penmaen-mawr, Conwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

(i) ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Medi 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

(ii) ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” (“*length(s) of the trunk road*”) yw’r darnau hynny o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar naill ai gerbytffordd tua’r dwyrain neu gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. (1) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua’r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 14, nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua’r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd ar y lôn allanol o gerbytffordd tua’r gorllewin y darn o’r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r dwyrain;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r dwyrain drwy unrhyw un o’r bylchau yn llain ganol y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

(2) Pan waherddir symud traffig, gan erthygl 3, ar y gerbytffordd tua’r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 14, nas gwaherddir ar y gerbytffordd tua’r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd:-

(i) mynd ar y lôn allanol o gerbytffordd tua’r dwyrain y darn o’r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r gorllewin;

(ii) mynd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r gorllewin drwy unrhyw un o’r bylchau yn llain ganol y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.20 metr o led neu'n lletach, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 7.

11. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 14, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio unrhyw gerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

Atal Dros Dro

12. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr – Morfa Conwy, Conwy) (Dileu Cyfyngiadau) 2004**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1, 2, 3 a 4 o Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 7 yn weithredol.

13. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1989**(4)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1, 2, 3 a 4 o Atodlen 4 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 7 yn weithredol.

Cymhwyso

14. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

15. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Medi 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 2004/2876
(4) O.S. 1989/1958

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwrthlif a Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r gorllewin hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin.

ATODLEN 2

Terfynau Bwlch y Llain Ganol

Y bwlch yn y llain ganol sydd wedi ei leoli rhwng pwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin hyd at bwynt 354 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.

ATODLEN 3

Cyfyngiad Cyflymder 50 mya Dros Dro

1. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Morfa Drive hyd at bwynt ar ddiwedd trwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy.

2. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables wrth Gyffordd 15a hyd at y llain ganol sydd 191 o fetrau i’r dwyrain o borth gorllewinol twnnel pentir Penmaen-bach tua'r dwyrain gan gynnwys bwlch y llain ganol a cherbytffordd gylchredol gyfan y gylchfan wrth Gyffordd 16, Cylchfan Puffin.

ATODLEN 4

Cyfyngiad Cyflymder 30 mya Dros Dro

1. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 940 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, hyd at bwynt 30 o fetrau i’r dwyrain o’r canolbwynt hwnnw, gan gynnwys y bwlch yn y llain ganol a ddisgrifir yn Atodlen 2.

2. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 354 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan Puffin, hyd at bwynt 30 o fetrau i’r dwyrain o’r canolbwynt hwnnw.

3. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o ddechrau trwyniad y ffordd ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy hyd at bwynt 840 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 17, Morfa Conwy.

4. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua’r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy.

ATODLEN 5

Gwahardd Pob Cerbyd Dros Dro

Y darnau cyfan o’r ffyrdd ymuno ac ymadael tua’r gorllewin wrth Gyffordd 16a, Dwygyfylchi.

ATODLEN 6

Cyfyngu Dros Dro ar Led Cerbydau

Y darn hwnnw o’r gerbytffordd tua’r dwyrain sy’n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 15, Cylchfan Llanfairfechan hyd at bwynt 30 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cyflchfan Puffin.

ATODLEN 7

Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn hwnnw o'r droetffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys draffig wrth Gyffordd 16a, Ffordd Glan-yr-afon am bellter o 1512 o fetrau hyd at Gyffordd 16, Cylchfan Puffin.